






# MARY WILIAM a'r Gwerthu yn Gymraeg

MEWN ffair hen bethau yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd y gwelais yr hysbyseb *Park Drive*. Wrth weld yr het Gymreig a'r geiriau, *I'r bobl sy'n mwynhau sigarennau o ddifrif*, meddyliais ar unwaith am *Y Casglwr*, a'i olygydd.

Estynnais ato a dyma ŵr main, tal wrth fy ysgwydd, Noel Williams, yr actor. "Ife'ch stondin chi yw hwn?" medda fi.
"Ie. Dech chi isho hwnna?"
"Faint yw e?"
"Pum punt i chi, saith a hanner i bawb arall!"
A dyna sut y prynais i'r hysbyseb hon.

Prynodd ef becyn ohonynt nad oedd erioed wedi cael ei agor yng Nghaer. Dywed eu bod o'r 50au. Mae'n mesur 11" x 8", mae'r cefndir yn fflamgoch a'r llythrennau yn wyn. Mae'n garden drwchus a choes sy'n plygu'n wastad ar y cefn. Bwriedid iddi sefyll ar gownter siop.

Mae yma un hysbyseb Gymraeg arall gan gwmni Welshod, ag arni'r geiriau *Esgidiau WELSHOD y Goreu all Celfyddyd Gynhyrchu*. Mae llai o sglein yr hysbysebwr a'r cynllunydd ffyniannus ar hon. Tila yw'r papur a'r argraffu. Mae'r cefndir yn wyrdd golau, y bandin yn felyn a'r geiriau'n biws. Mae'n dweud ei neges yn glir ond nid yw'n ceisio llorio neb. Ei fesuriadau yw $4\frac{1}{2}''$ x $5\frac{1}{2}''$.

* * *

ERS IDDI agor, bûm yn awchu am gael gweld Amgueddfa'r *Pack Age* yng Nghaerloyw. Tra bo'i rieni yn casglu llên a llafar plant dechreuodd Robert Opie, yn fachgen ifanc, gasglu papurau losin a siocled, potiau iogwrt, a bocsys bwyd brecwast. O hynny y tyfodd y casgliad anferth a arddangosir mewn hen warws ar gei Caerloyw.

Troes ei obsesiwn yn amgueddfa gyhoeddus. Ni welwyd erioed amgueddfa mor liwgar, y walydd yn ddu a llif-oleuadau bach yn goleuo'r cesys: rhai yn ymwneud â blynyddoedd y rhyfel fesul blwyddyn ac eraill yn trafod nwyddau unigol, OXO, Ovaltine, Rinso ac yn y blaen. A'r cwestiwn ar wefusau pawb wrth gerdded o amgylch oedd, "Wyt ti'n cofio ...?"

Yn rhyfedd iawn, ar ôl gweld rhyw pump ces, daeth rhyw deimlad annisgwyl o ddifaterwch, ac yn y pen draw, syrffed, drosof. Bûm yn ceisio dirnad pam y digwyddodd hynny.

Ar ôl dod adref daeth yr ateb imi. Doedd dim enaid i'r lle. Ymdrin â phethau ymylol bywyd yr oedd hi, yr allanolion yn unig. Gwybod y geiriau yr oeddwn yno, heb adnabod y gair.

Wrth feddwl am hysbysebu yn Gymraeg, yr unig hysbyseb weladwy a gofiaf yw *Raleigh — y beisicl sy'n ddur i gyd*. Byddwn yn ei gweld ar dalcen hen efail neu siop yn y dyddiau pan oeddwn yn teithio Cymru yn rheolaidd.

Erbyn hyn, does gen i ddim syniad ym mha bentref yr oedd hi. Un dunplat oedd hi wedi ei henamelo mewn glas tywyll a llythrennau llwydwyn. Yn naturiol, yr oedd y blynyddoedd wedi gadael eu hôl arni. Ond ble mae nawr?

Dyna natur y pethau hyn. Pethau dros dro ydynt. Effemera yw'r gair a ddefnyddir amdanynt. Maen nhw'n ymylol ac eto maen nhw yng nghanol ein bywydau: labeli tuniau bwyd, sigarennau a thybaco, poteli gwin a diod; pacedi powdwr golchi; tocynnau bws, trên ac awyren; arian papur, bondiau. Dyma'r pethau bach sy'n cwblhau'r darlun o fywyd cyfnod.

Petai rhywun yn cadw pob papuryn am y flwyddyn 1988, mi fyddai'n cadw amlenni Cymorth Cristnogol a Dr Barnado's, y cardiau sy'n rhoi caniatad i roi organau'ch corff i ymchwil feddygol yn ogystal â chardiau credyd. Ydy'n hanes cymdeithasol ni yn y papurach hyn neu a ydynt yn fwy o adlewyrchiad o feddylfryd y bobl sy'n creu hysbysebion?

Mae pwysau ar gwmnïau i werthu eu cynnyrch er mwyn gwneud arian ac maen nhw'n barod felly i ddefnyddio pob dull posibl o gyrraedd y farchnad. Teimlai gwneuthurwyr *Park Drive*, mae'n amlwg, ei bod yn werth hysbysebu yn Gymraeg.

Ysgwn i pam? Ai dathlu achlysur arbennig a wnaent, dydd Gŵyl Dewi er enghraifft? A dalodd yr ymgyrch ar ei chanfed? A ymatebodd unrhyw gwmni sigarennau arall i her *Park Drive* trwy hysbysebu yn Gymraeg?

* * *

MAE casglu effemera yn hobi sy'n tyfu ar garlam wyllt. Er nad oes ynddynt werth ynddynt eu hunain, mae'r mân betheuach yn siarad â phobl, yn dwyn atgofion a phrofiadau sy'n eu deffro o'u trwmgwsg.

Gan fod y papurach hyn yn cael eu cynhyrchu wrth y degau o filoedd rhaid anelu at gadw'r rhai sydd mewn cyflwr perffaith. Os oes raid eu glanhau dylid defnyddio rwber yn ysgafn iawn, gallai defnyddio dŵr godi'r lliw.

Mae'n ddiddorol y dulliau casglu gwreiddiol sydd gan bobl yn y maes hwn. Obsesiwn rhai yw casglu pob peth a gyhoeddwyd ar ddiwrnod eu genedigaeth: mae eraill yn dewis themâu megis garddio, teithio, marwolaeth, cylchgronau merched; eraill popeth â Chymraeg arno, llestriyn, cerdyn neu hysbyseb.

Dyna gasgliad gwerth chweil fyddai enghraifft o bob darn o bapur a geir ar y maes yn ystod un wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyna her i rywun.